END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

# ECPN Cymru Manifesto



Mae lefelau tlodi plant yng Nghymru yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel a rhagwelir y byddant yn cynyddu yn ystod tymor nesaf y Senedd oni bai bod camau brys yn cael eu cymryd. Y tu ôl i bob ystadegyn mae babi, plentyn neu berson ifanc. Mae plant o bob oed wedi wynebu cyfraddau tlodi uwch yn gyson, ond mae'r twf yn nifer y rhai sy'n byw mewn tlodi dwys yn arbennig o bryderus. Gall effaith niweidiol cael eich geni i dlodi a'ch magu mewn tlodi fod yn ddifrifol gyda chanlyniadau gydol oes. Po hiraf y bydd plentyn yn aros mewn tlodi, anoddaf y bydd iddo dorri'n rhydd.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud dileu tlodi plant yn flaenoriaeth ganolog.**

Dylid cymryd camau i fynd i'r afael a gwreiddiau tlodi ynghyd â chymryd camau i liniaru effaith incwm isel ar fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae gan bob baban, plentyn a pherson ifanc yr hawl i safon byw ddigonol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a dylai pawb gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae tlodi plant yn parhau i fod yn gwbl groes i hawliau dynol plant.

Credwn y gallai ac y dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud mwy o fewn y grym sydd ganddynt. Gan gydweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Cyrff Cyhoeddus Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector, dylai mynd i'r afael â thlodi plant fod yn flaenoriaeth allweddol yn nhymor nesaf y Senedd.

## 10 Cam i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru

### Cam gweithredu 1 – Uchelgais a Chynllun Cyflawni Clir

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Adeiladu ar y Strategaeth Tlodi Plant statudol drwy gyhoeddi a rhoi Cynllun Cyflawni Tlodi Plant ar waith yn llawn gyda thargedau a cherrig milltir mesuradwy ac uchelgeisiol, wedi'u cefnogi gan drefniadau monitro ac adrodd tryloyw.
- Cynnal dadansoddiad o ddyfnder a difrifoldeb tlodi plant yng Nghymru, er mwyn llywio llwybrau allan o dlodi a datblygu set uchelgeisiol o fetrigau i fesur cynnydd yn eu herbyn.
- Cymryd camau i gryfhau mecanweithiau casglu data, gan flaenoriaethu casglu data mwy cynhwysfawr, manwl ac wedi'i dadgyfuno sy'n cyfleu profiadau plant sy'n byw mewn sefyllfaoedd ac amgylchiadau amrywiol.

## Cam gweithredu 2 – Ni ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Ymestyn Prydau Ysgol Am Ddim (PYD) i bob plentyn ysgol uwchradd, neu o leiaf yn y lle cyntaf, i bob plentyn sy'n byw mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
- Sicrhau bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud i alluogi cofrestru'n awtomatig ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim tra bod y cynnig i bawb yn cael ei gyflwyno.
- Sicrhau bod pob pryd ysgol yn faethlon ac o ansawdd a maint digonol i ddiwallu'r angen.
- Cymryd camau tuag at fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, gan gynnwys darparu bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol, fel rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o anghydraddoldebau iechyd.

## Cam gweithredu 3 – System gofal plant sy'n gweithio i fabanod, plant a phobl ifanc

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at ofal plant hyblyg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, fel rhan o system gydlynol, gynhwysol ac integredig, gyda'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a gofal plant Dechrau'n Deg wedi'u hehangu i sicrhau y gall pob plentyn mewn tlodi gael mynediad at ofal plant am ddim.
- Sicrhau bod gwasanaethau gofal plant yn cael eu darparu gan weithlu sy'n cael ei dalu'n dda ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, gyda chamau'n cael eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio a chadw yn y sector.

## Cam gweithredu 4 – System Budd-daliadau effeithiol a theg i Gymru

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Fuddsoddi mewn System Budd-daliadau cydlynol ac unedig i Gymru sy'n helpu i godi safonau byw ac yn darparu digon o gymorth ariannol i bob teulu pan fydd ei angen arnynt.
- Cyflwyno Taliad Plant Cymru wythnosol, tebyg i Daliad Plant yr Alban, wedi'i lywio gan astudiaeth ddichonoldeb y dylid ei chwblhau yn ystod blwyddyn gyntaf y llywodraeth a gan weithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ôl yr angen.
- Sicrhau nad oes unrhyw deulu yn colli allan ar y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo trwy ddarparu mynediad gwell at gyngor lles a gwasanaethau cymorth i gynyddu'r nifer a wna ddefnydd ohonynt a mynd i'r afael â lefelau dyled.
- Sicrhau bod pob budd-dal, hawl a throthwy incwm yng Nghymru yn cael eu codi a'u cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant fel bod gwerth gwirioneddol yn cael ei gynnal.
- Diogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol yn y dyfodol hyd at o leiaf y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2025-26, gan sicrhau bod y gronfa'n cael ei hyrwyddo'n dda i deuluoedd.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod System Nawdd Cymdeithasol y Deyrnas Unedig yn cael ei diwygio ac yn darparu'r rhwyd ddiogelwch angenrheidiol i bob plentyn a theulu fyw mewn urddas.



## Cam gweithredu 5 – Mynd i'r afael â chost Addysg

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau ar gyfer gwisgoedd ysgol, drwy gyflwyno trefniadau monitro ac atebolrwydd cadarn i graffu ar effeithiolrwydd y canllawiau presennol.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais oherwydd nad oes ganddo'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer dysgu a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.
- Ariannu teithiau bws am ddim i bob plentyn o oedran ysgol statudol fel nad oes unrhyw deulu'n wynebu costau ychwanegol i'w plentyn deithio i'r ysgol.
- Adolygu meini prawf cymhwysedd a digonolrwydd y Grant Hanfodion Ysgol fel bod pob plentyn mewn tlodi yn gallu cael mynediad at gymorth gyda chostau ysgol.
- Sicrhau bod holl staff yr ysgol, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol i lywio eu dulliau o fynd i'r afael â thlodi plant yn amgylchedd yr ysgol ac i leihau stigma.
- Mesur bylchau cyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion a gosod targedau clir i leihau'r rhain.

## Cam gweithredu 6 – Dull Hawliau'r Plentyn o fynd i'r afael â thlodi

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn cydymffurfio'n llawn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).
- Cyhoeddi Asesiadau Effaith ar Hawliau'r Plentyn ar bob penderfyniad polisi, gan gynnwys cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.
- Ymgorffori model dilys o gyd-gynhyrchu gyda babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi, a sicrhau bod pob partner cyflawni hefyd yn meithrin perthnasoedd ystyrlon a pharhaol sydd wedi'u seilio ar hawliau, parch a phartneriaeth.
- Sicrhau bod pob partner cyflawni yn mabwysiadu dull hawliau'r plentyn o fynd i'r afael ag effaith tlodi, a bod hyfforddiant wedi'i ariannu yn cael ei ddarparu i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

## Cam gweithredu 7 - Tai Fforddiadwy a mynd i'r afael â Thlodi Tanwydd

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Gynyddu'n sylweddol y cyflenwad o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru sy'n fforddiadwy o ran dyluniad ac sy'n darparu diogelwch a sefydlogrwydd.
- Cyflymu'r broses o ôl-osod cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael i warchod aelwydydd rhag sioc prisiau ynni a lleihau tlodi tanwydd.
- Ehangu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni i'r teuluoedd sydd fwyaf mewn angen, gan gynnwys drwy gynllun Nyth.
- Sicrhau bod yr holl ddeilliannau o Gynllun Cartrefi Cynnes £13.2bn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru'n cael eu defnyddio i dorri biliau, lleihau tlodi tanwydd, a gwneud cartrefi'n fwy gwyrdd.



## Cam gweithredu 8 – Gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Ddarparu digon o adnoddau ac ehangu'r rhaglenni cenedlaethol presennol fel gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'n plant tlotaf.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol ar gyfer pob oed i sicrhau bod babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth yn gynharach yn eu taith fel nad yw'r angen na'r argyfwng yn gwaethygu. Dylai hyn gynnwys y rhai sydd mewn mwy o berygl o dlodi oherwydd y rhwystrau ychwanegol y maent yn eu hwynebu oherwydd eu hunaniaeth, cefndir, amgylchiadau neu nodweddion.
- Sicrhau bod Bwndeli Babanod yn cael eu cyflwyno a'u bod yn hygyrch i bob teulu newydd, i helpu gyda rhywfaint o gostau prynu eitemau hanfodol ac i helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob baban yng Nghymru. Dylid cynnal gwerthusiad llawn o'r cyflwyniad.
- Cefnogi a gwella datblygiad arfer amddiffyn plant sy'n ymwybodol o dlodi.

## Cam gweithredu 9 – Rôl Cyrff Cyhoeddus Cymru – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cyhoeddi strategaeth leol neu ranbarthol ddigon cadarn ac wedi'i hariannu'n ddigonol i fynd i'r afael â thlodi plant yn unol â dyletswyddau statudol presennol, wedi'i chefnogi gan drefniadau monitro ac adrodd tryloyw.

## Cam gweithredu 10 – Swyddi o ansawdd da sy'n cyd-fynd â bywyd teuluol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru

- Sicrhau bod gan deuluoedd incwm digonol i fyw bywyd llawn a da gydag urddas, drwy ddarparu mynediad at swyddi diogel o ansawdd gyda chyflog da a rhagolygon da ar gyfer datblygiad ac sy'n ymatebol i anghenion ac amgylchiadau mathau penodol o deuluoedd.
- Sicrhau bod cyflogwyr a ariennir gan y llywodraeth yn dilyn y safonau 'Gwaith Teg' sy'n hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n rhoi sylw i lesiant gweithwyr.



# Darllen pellach

**Action for Children** – *Securing a Better Childhood (Adroddiad byr Cymru)* – Yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth tlodi plant ddiwygiedig gyda thargedau mesuradwy, cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwell cefnogaeth i rieni.

**Archwilio Cymru** – *Amser am Newid: Tlodi yng Nghymru* Yn tynnu sylw at dlodi cynyddol yng Nghymru ac yn galw am gamau cydlynol gan y llywodraeth a pholisïau wedi'u targedu'n well

**Barnardo's Cymru** – *Effaith gynyddol tlodi a'r argyfwng costau byw ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru* Yn edrych ar sut mae costau byw cynyddol yn gwaethygu tlodi plant ac yn effeithio ar lesiant teuluoedd yng Nghymru.

**Sefydliad Bevan** – *The Impact of Policy Interventions Designed to Reduce Poverty in Wales* – Yn darparu modelu o sut y gallai ymyriadau polisi penodol leihau lefelau tlodi ledled Cymru.

**Sefydliad Bevan a Barnardo's Cymru** – *Rhoi terfyn ar dlodi yn ystod y blynyddoedd cynnar* Adroddiad a gynhyrchwyd ar y cyd yn tynnu sylw at strategaethau effeithiol i atal a lleihau tlodi yn ystod plentyndod cynnar.

**Grwp Gweithredu Tlodi Plant** – *Dull Seiliedig ar Hawliau Plant o Ddaclo Tlodi*. Yn galw am integreiddio hawliau plant i bob polisi gwrth-dlodi i ddiogelu eu lles a'u cyfranogiad.

**Plant yng Nghymru** – *Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2024 – 8fed rhifyn* Yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg diweddaraf ar dlodi plant a theuluoedd ledled Cymru, gan gynnwys tueddiadau a phrofiadau bywyd.

**Comisiynydd Plant Cymru** – *Dull seiliedig ar hawliau'r plentyn o daclo tlodi plant* Yn galw am integreiddio hawliau plant i bob polisi gwrth-dlodi i ddiogelu eu lles a'u cyfranogiad.

**Institute for Public Policy Research (IPPR)** – *The Homes that Children Deserve*. Yn archwilio sut mae costau a phrinder tai yn cyfrannu at dlodi plant, gydag argymhellion ar gyfer ymyriadau polisi.

**Joseph Rowntree Foundation** – *Poverty in Wales 2025*. Rhagolwg o dlodi yng Nghymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddadansoddi gyrwyr a thueddiadau ar gyfer plant a theuluoedd.

**National Energy Action Cymru** – *Response to Welsh Government Fuel Poverty Plan (2020-2035)*. Yn gwerthuso polisi tlodi tanwydd Cymru yn feirniadol, gan amlygu'r effeithiau ar aelwydydd â phlant.

**Oxfam Cymru** – *Invest in Care, Invest in Wales*. Yn galw am fwy o fuddsoddiad mewn gofal plant fforddiadwy a hygyrch yng Nghymru.

**Public Health Wales** – *Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach: Pum blaenoriaeth polisi*. Yn amlinellu pum blaenoriaeth iechyd cyhoeddus allweddol i wella iechyd pobl yng Nghymru a'r atebion polisi i'w cyflawni.

***Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant*** – *Plant a'r argyfwng costau byw yng Nghymru* Adroddiad ar sut mae iechyd a lles plant yn cael eu heffeithio a meysydd ar gyfer gweithredu.

**Achub y Plant** – *Pŵer y Llais*. Yn canolbwyntio ar safbwyntiau plant a'u profiadau o dlodi, gan amlygu sut y gall polisi gefnogi eu hanghenion yn well

**Trussell** – *Mynd heb fwyd yng Nghymru*. Yn cyflwyno tueddiadau mewn ansicrwydd bwyd a newyn ledled Cymru, gan gynnwys yr effaith ar blant a theuluoedd.

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP)** – *Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru*. Adroddiad arolwg yn dangos sut mae stigma sy'n gysylltiedig â thlodi yn effeithio ar unigolion a theuluoedd, gan gynnwys plant, ac argymhellion ar gyfer mynd i'r afael ag ef.

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP)** – *Tlodi ac allgau cymdeithasol: Adolygiad*. Yn rhoi trosolwg o raddfa, achosion a chanlyniadau tlodi ac allgau cymdeithasol ledled Cymru

**Llywodraeth Cymru** – *Canllaw i waith teg* Yn nodi diffiniad Llywodraeth Cymru o waith teg a'r egwyddorion a'r disgwyliadau allweddol i gyflogwyr hyrwyddo cyflogaeth deg, ddiogel, a chyflog da yng Nghymru.

## Ynghylch ECPN Cymru

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (ECPN Cymru) yn gynghrair genedlaethol o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru. Yn weithredol ers 2001, ac wedi'i hwyluso gan Plant yng Nghymru, mae Grŵp Llywio'r ECPN yn gweithio ar y cyd i nodi a chefnogi atebion at ddiben lleihau lefelau tlodi plant yng Nghymru ac i liniaru ei effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae gwaith y grŵp yn cael ei lywio gan ymrwymiad cadarn i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac i wella bywydau pob plentyn, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl a dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae Grŵp Llywio'r ECPN yn cynnwys aelodau o sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithredu yng Nghymru sy'n ymwneud yn weithredol â pholisi, materion cyhoeddus a/neu weithgareddau ymgyrchu sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant. Mae aelodau Grŵp Llywio'r ECPN yn gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol, ac wedi'u henwebu ganddynt, ac yn atebol iddynt.

Gweithredu dros Blant,
Barnardo’s Cymru,
Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant,
Plant yng Nghymru,
Comisiynydd Plant Cymru (sylwedyddion),
Cyngor ar Bopeth Cymru,
Home-Start Cymru,
NEA Cymru,
NSPCC Cymru,
NYAS Cymru,
Oxfam Cymru,
Iechyd Cyhoeddus Cymru (sylwedyddion),
Achub y Plant Cymru,
Shelter Cymru,
Cymdeithas y Plant,
Ymddiriedolaeth y Brenin Cymru,
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant,
Trussell Wales/Cymru,
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (sylwedyddion)

